# Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019

**2019 dccc 2**

## RHAN 7

DARPARIAETHAU TERFYNOL

### 24 Gofyniad i awdurdod tai lleol hyrwyddo ymwybyddiaeth o effaith y Ddeddf

(1) Rhaid i awdurdod tai lleol wneud trefniadau i wybodaeth fod ar gael yn gyhoeddus yn ei ardal, ym mha ffordd bynnag y mae'r awdurdod yn meddwl sy'n briodol, am effaith y Ddeddf hon, gan gynnwys sut y gellir adennill taliadau gwaharddedig a blaendaliadau cadw.

(2) Wrth wneud trefniadau at ddibenion yr adran hon, rhaid i awdurdod tai lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.

### 25 Pŵer i wneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â thenantiaethau sicr

(1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth er mwyn i'r Ddeddf hon fod yn gymwys, yn ddarostyngedig i unrhyw addasiadau a bennir gan y rheoliadau, mewn perthynas â thenantiaeth sicr ar gyfer annedd.

(2) At ddibenion is-adran (1), mae i "tenantiaeth sicr" yr un ystyr ag "assured tenancy" yn Neddf Tai 1988 (c. 50) (ac mae'n cynnwys tenantiaeth fyrddaliadol sicr).

### 26 Troseddau gan gyrff corfforaethol

(1) Pan brofir bod trosedd o dan y Ddeddf hon a gyflawnwyd gan gorff corfforaethol wedi ei chyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad, neu i'w phriodoli i unrhyw esgeulustod, ar ran—

(a) uwch-swyddog i'r corff corfforaethol, neu

(b) person sy'n honni ei fod yn uwch-swyddog i'r corff corfforaethol,

mae'r uwch-swyddog neu'r person hwnnw (yn ogystal â'r corff corfforaethol) yn euog o'r drosedd ac yn agored i gael achos llys yn ei erbyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(2) Yn is-adran (1), ystyr "uwch-swyddog" yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall i'r corff corfforaethol.

(3) Ond yn achos corff corfforaethol y mae ei aelodau yn rheoli ei faterion, ystyr "cyfarwyddwr" at ddibenion yr adran hon yw aelod o'r corff corfforaethol.

**27 Rheoliadau**

(1) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon i'w arfer drwy offeryn statudol.

(2) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pŵer—

(a) i wneud darpariaethau gwahanol at ddibenion gwahanol;

(b) i wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol, ddarfodol neu arbed.

(3) Ni chaniateir i offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan adran 7, adran 13 neu baragraffau 2 neu 6 o Atodlen 1 (pa un a yw'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan unrhyw ddarpariaeth arall o'r Ddeddf hon ai peidio) gael ei wneud oni bai bod drafft o'r rheoliadau wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.

(4) Mae unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn ddarostyngedig i gael ei ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**28 Dehongli**

Yn y Ddeddf hon—

mae i "annedd" ("*dwelling*") yr un ystyr ag yn Neddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (dccc 1) (y cyfeirir ati yn yr adran hon fel "Deddf 2016");

ystyr "awdurdod tai lleol" ("*local housing authority*") yw'r cyngor ar gyfer sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru;

mae i "blaendal cadw" ("*holding deposit*") yr ystyr a roddir yn Atodlen 1;

mae i "blaendal sicrwydd" ("*security deposit*") yr ystyr a roddir yn Atodlen 1;

ystyr "contract meddiannaeth safonol" ("*standard occupation contract*") yw contract sy'n gontract safonol at ddibenion Deddf 2016;

mae i "deiliad contract" ("*contract-holder*") yr un ystyr ag yn Neddf 2016;

mae i "landlord" ("*landlord*") yr un ystyr ag yn Neddf 2016; ac os oes dau neu ragor o bersonau yn landlord ar y cyd, mae cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at y landlord yn gyfeiriadau at bob un o'r personau hynny;

ystyr "rheoliadau" ("*regulations*") yw rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru;

mae i "taliad gwaharddedig" ("*prohibited payment*") yr ystyr a roddir yn adran 4.

**29 Cymhwyso i'r Goron**

(1) Mae'r Ddeddf hon yn gymwys i'r Goron.

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(2) Nid yw unrhyw achos o dorri unrhyw ddarpariaeth a wneir gan neu o dan y Ddeddf hon yn gwneud y Goron yn atebol yn droseddol, ond caiff yr Uchel Lys ddatgan bod unrhyw weithred neu anweithred ar ran y Goron sy’n gyfystyr â thoriad o’r fath yn anghyfreithlon.

### 30 Dod i rym

(1) Mae’r adran hon ac adran 31 yn dod i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

(2) Daw darpariaethau eraill y Ddeddf hon i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol.

(3) Caiff gorchymyn o dan yr adran hon—

(a) pennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol;

(b) gwneud darpariaeth ddarfodol, drosiannol neu arbed.

### 31 Enw byr

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019.